# SL(6)592 – Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau yn Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024"), mewn ymateb i faterion yr adroddwyd arnynt gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ("y Pwyllgor") yn ei adroddiad ar Reoliadau 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 2(2)(a), yn y testun Saesneg, disgrifir lleoliad y diwygiad fel un a geir *"in the definition of "**relevant financial support**""* (pwyslais wedi'i ychwanegu) yn rheoliad 2 o Reoliadau 2024.

Fodd bynnag, mae'r diwygiad yn cael ei wneud i'r diffiniad a geir yn nhestun Cymraeg rheoliad 2 o Reoliadau 2024 yn unig. Felly, dylai nodi'r diffiniad Cymraeg "*cymorth ariannol perthnasol*", yn hytrach na *"relevant financial support"*, mewn dyfynodau yn nhestun Saesneg rheoliad 2(2)(a) wrth nodi'r diffiniad i'w ddiwygio.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 2(2)(b), mae'r diwygiad yn ceisio disodli'r term *"retained direct EU legislation"* gyda'r term cywir *"assimilated direct legislation"* yn y diffiniad o *"statutory duty"* yn rheoliad 2 o Reoliadau 2024.

Yn y testun Cymraeg sy'n disgrifio'r diwygiad, nodir y term newydd fel *"deddfwriaeth uniongyrchol a gym**h**athwyd"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, safonwyd y term hwn yn Gymraeg fel *"deddfwriaeth uniongyrchol a gy**math**wyd"* (pwyslais wedi'i ychwanegu) yn y rhestr o dermau a geir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac yng nghronfa ddata ar-lein o dermau Cymraeg Llywodraeth Cymru, sef BydTermCymru. At hynny, nodir y ddefnyddir y term safonedig yn y Memorandwm Esboniadol (gweler paragraff 4.2).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio cywiro gwallau a godwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Reoliadau 2024. Fel yr esbonnir yn y Memorandwm Esboniadol, ym mharagraff 2.1:

> *"Mae'r Rheoliadau hyn yn ymateb i faterion yr adroddwyd arnynt gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mhwyntiau 3, 5, 6 a 7 o'u hadroddiad ar Reoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 (gweler SL(6)507)."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir nad yw'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd technegol sy'n weddill, sef 1, 2 a 4, o adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024.

Esboniodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw pam y mae'n anghytuno â phwynt adrodd 4. Nid oedd yn anghytuno â phwyntiau adrodd 1 a 2 ond esboniodd, gan nad yw Llywodraeth Cymru yn *"ystyried eu bod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn"*, na fyddai'n ceisio diwygio Rheoliadau 2024 mewn cysylltiad â'r pwyntiau hynny.

Daeth Llywodraeth Cymru i gasgliad tebyg mewn perthynas â phwyntiau adrodd 3, 5 a 7, nad oedd yn ystyried bod y pwyntiau hynny'n cael effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn perthnasol. Fodd bynnag, gan y bu rheoliadau diwygio (h.y. y Rheoliadau hyn) yn ofynnol i fynd i'r afael â phwynt adrodd 6, manteisiodd ar y cyfle i fynd i'r afael â'r pwyntiau hynny beth bynnag. Nodir y gellai'r un dull fod wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 a 2, er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Reoliadau 2024, cydnabu Llywodraeth Cymru yr angen am reoliadau diwygio mewn perthynas â phwynt adrodd 6 o'r adroddiad hwnnw ac esboniodd y byddai'n bwriadu cyflwyno'r rheoliadau diwygio, h.y. y Rheoliadau hyn, *"cyn*

*diwedd 2024"*. Fodd bynnag, nodir na wnaed y Rheoliadau hyn tan 27 Chwefror 2025 ac, felly, bu oedi cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, mewn perthynas â'r pwynt hwn ar 16 Ionawr 2025 a chafodd ymateb ar 30 Ionawr 2025.

O ganlyniad i'r oedi, bydd yr anghysondeb sy'n ymwneud â'r cyfnod ar gyfer cymrodeddu neu benderfyniad trydydd parti fel y nodir yn rheoliad 3(8) o Reoliadau 2024 a'r ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliad 3(9) o Reoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd (Cymru) 2024, yr adroddwyd arni o'r blaen gan y Pwyllgor ac sydd wedi bod mewn grym ers 8 Awst 2024 (pan ddaeth y Rhannau perthnasol o'r rheoliadau hynny i rym), yn aros ar y llyfr statud nes i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 21 Mawrth 2025.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r rheswm dros yr oedi cyn gwneud y Rheoliadau hyn ac unrhyw effaith ymarferol y gall hyn fod wedi'i chael ar denantiaid y gallant fod wedi ceisio cyfeirio eu cais ar gyfer cymrodeddu neu benderfyniad trydydd parti rhwng 8 Awst 2024 a 21 Mawrth 2025.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Ceir yr esboniad a ganlyn ym mharagraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi ei gynnal gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiad i adlewyrchu'r bwriad polisi gwreiddiol. Nid ydynt yn adlewyrchu newid polisi ehangach."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1, 2 a 5 yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.